TGAU

3000N30-1A

S17-3000N30-1A

# CYMRAEG IAITH

**Uned 3**
**Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Cyfarwyddiadol a Pherswâd**

DYDD GWENER, 12 MAI 2017 – BORE

2 awr

**DEUNYDD DARLLEN I'W DDEFNYDDIO GYDAG ADRAN A**

3000N301A
01

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

# TUDALEN WAG

## DARN DARLLEN 1

### Cynnydd yn y defnydd o'r we

Ydych chi'n treulio oriau bob dydd yn gwylio fideos ar *YouTube* neu'n busnesu ar *Facebook*?

Fyddwch chi'n edrych ar eich ffôn ganol nos i weld faint sydd wedi hoffi eich llun neu sylw diweddaraf?

Ai'r peth cyntaf wnewch chi yn y bore ydy edrych ar *Instagram*?

Fyddech chi'n gallu byw heb eich tabled, ffôn neu gyfrifiadur?

Roedd pobl yn 2015 yn treulio dwywaith mwy o amser ar y we na phobl 10 mlynedd cyn hynny. Yn ôl arolwg gan Ofcom sy'n rheoli dulliau cyfathrebu ym Mhrydain, bu'r cynnydd mwyaf ymysg pobl rhwng 16 a 24 oed.

| Pobl ifanc 16 – 24 oed | Cyfanswm oriau ar-lein yr wythnos |
|---|---|
| 2005 | 10 awr 24 munud |
| 2015 | 27 awr 36 munud |

**Pam mae pobl yn treulio mwy a mwy o amser ar-lein?**

- Sawl dyfais yn eu galluogi i gysylltu â'r we - cyfrifiadur, gliniadur, ffôn a thabled
- Nifer yn gwylio rhaglenni ar alw er enghraifft *BBC iPlayer*
- Mwy o bobl nag erioed yn siopa ar-lein
- Defnyddio'r we i chwarae pob math o gemau
- Rhwydweithiau cymdeithasol fel ystafelloedd siarad, blog a gwefannau cymdeithasol yn boblogaidd tu hwnt





3000N301A
01

## DARN DARLLEN 2

**Rhai ffeithiau am y gwefannau cymdeithasol mwyaf poblogaidd**

| | |
|---|---|
| 1. *Facebook* | • Biliwn a mwy o ddefnyddwyr<br>• Y wefan gymdeithasol fwyaf poblogaidd yn y byd<br>• Pobl yn gallu creu proffil, llwytho lluniau a fideos a rhannu sylwadau a negeseuon<br>• Dull cyfleus o gysylltu â ffrindiau, teulu a chydweithwyr |
| 2. *Twitter* | • 100 miliwn o bobl yn trydar<br>• Ystyr trydar: anfon neges fer 140 llythyren/ symbol<br>• Gwasanaeth rhwydweithio sy'n galluogi pobl i anfon, darllen ac ailanfon negeseuon |
| 3. *LinkedIn* | • Dros 332 miliwn o ddefnyddwyr<br>• Oed ymuno - pedair ar ddeg oed<br>• Gwefan i bobl broffesiynol ryngweithio<br>• Dau aelod newydd yn ymuno bob eiliad |
| 4. *YouTube* | • Gwefan i rannu clipiau fideo<br>• Rhaid bod yn ddeunaw oed neu gael caniatâd rhieni i ddefnyddio'r wefan<br>• Biliwn o glipiau fideo yn cael eu gwylio ar ffonau symudol bob dydd |
| 5. *Pinterest* | • Tua 70 miliwn o ddefnyddwyr - 80% o'r rhain yn ferched ac 20% yn ddynion<br>• Pobl yn medru dod o hyd i ddiddordebau a syniadau newydd drwy edrych ar y delweddau a'r clipiau fideo y mae pobl yn eu gosod |

© WJEC CBAC Cyf.

**DARN DARLLEN 3**



**Gwefannau cymdeithasol – bendith neu felltith?**

’Dw i ’di gwirioni ar *Facebook* neu Gweplyfr fel mae fy athrawes yn ei ddweud! Galla i gysylltu â ffrindiau a theulu unrhyw bryd, mewn unrhyw le a hynny’n rhad ac am ddim. ’Dw i’n eithaf busneslyd, felly ’dw i wrth fy modd yn edrych ar luniau difyr o be mae pawb yn ei wneud, yn lle a gyda phwy! Faswn i ddim yn teimlo mor agos at fy ffrindiau a pherthnasau heb fy nghyfrif. Mae pawb yn gallu rhannu profiadau a theimladau hapus neu drist a chael cefnogaeth cylch anferth o ffrindiau a theulu. **Merch yn ei harddegau**

Fel perchennog busnes bach mae’r gwefannau cymdeithasol yn amhrisiadwy i mi fel ffordd o hysbysebu. Mae’n costio crocbris i hysbysebu drwy’r cyfryngau traddodiadol fel teledu, cylchgronau a phapurau newydd. Pan oedd fy musnes yn datblygu, doedd gen i ddim digon o arian i’w fuddsoddi. Drwy ddefnyddio’r we rydw i’n gallu cysylltu â fy nghwsmeriaid a datblygu’r busnes heb wario ffortiwn. **Perchennog busnes bach**

Rwy’n cyflogi criw o bobl ifanc. Sylwais fod eu ffonau’n fflachio a chanu’n ddi-baid. Roedd hyn yn amharu ar eu gwaith ac roeddent yn cynhyrchu llai o nwyddau mewn diwrnod. Rydw i wedi gwahardd dyfeisiau electronig yn y gweithle. Yn ystod eu hawr ginio, mae croeso iddyn nhw gysylltu â’u ffrindiau ond nid yn ystod oriau gwaith. Rwy’n eu cyflogi i ganolbwyntio ar eu gwaith, nid i gymdeithasu. **Cyflogwr**


Mae gorddefnyddio’r gwefannau yn gallu gwneud i’r defnyddwyr fynd yn gaeth. Drwy gydol yr amser, maen nhw’n teimlo bod yn rhaid rhannu sylw neu wirio beth mae pobl eraill wedi’i osod ar y gwefannau. Mae defnydd gormodol hefyd yn lleihau rhyngweithio wyneb yn wyneb gyda phobl go iawn. Gall pobl fod yn unig iawn gan ynysu eu hunain y tu ôl i’r proffil ar-lein. **Meddyg**

Bu sawl ymgyrch lwyddiannus i godi arian. Dechreuodd merched osod hun-lun neu *selfie* ohonyn nhw eu hunain heb golur, cyfrannu arian at Ymchwil Cancr ac enwebu ffrindiau i wneud yr un peth. Codwyd £8,000,000 at gronfa Ymchwil Cancr mewn chwe diwrnod. **Gweithiwr elusen**

Petawn i’n cael dewis mi fuaswn i’n gwahardd gwefannau cymdeithasol yn llwyr i blant o dan 16 oed. 13 oed ydy’r oedran cyfreithiol i ddefnyddio *Instagram*, ond mae’n amlwg nad ydy plant yr oedran yma’n ddigon call a chyfrifol i ddefnyddio’r cyfryngau. Maen nhw’n achosi helyntion di-ben-draw. Bydd plant yn rhannu delweddau amhriodol ohonyn nhw eu hunain neu’n gosod lluniau o’u cyfoedion er mwyn codi cywilydd arnyn nhw. Rydw i wedi gweld sawl achos o ddisgyblion yn dweud pethau cas am ei gilydd. Melltith yn sicr ydy’r gwefannau cymdeithasol i gyd. Dylai rhieni wahardd eu plant rhag eu defnyddio. **Pennaeth Blwyddyn 7**

## DARN DARLLEN 4

### Gwefannau cymdeithasol 'yn achub y Gymraeg'



*Yr Athro David Crystal*

Mae gwefannau cymdeithasol a chyfathrebu digidol yn bwysig iawn i barhad yr iaith Gymraeg, yn ôl yr Athro David Crystal, academydd enwog sy'n arbenigo mewn iaith. Dywedodd fod gwefannau fel *Facebook* a *Twitter* yn rhoi mwy o gyfle i bobol ifanc ddefnyddio'r iaith ymysg eu cyfoedion.

"Flynyddoedd yn ôl, ni fyddai gan bobol ifanc unrhyw ddylanwad ar ffurf yr iaith Gymraeg. Ond erbyn hyn mae pobol ifanc yn ysgrifennu cymaint yn yr iaith ag y mae pobol hŷn."

**Mae'r DJ Dyl Mei yn cefnogi sylwadau David Crystal.**

"Diolch i dechnoleg newydd fel tecstio, trydar a blogio, mae'r iaith Gymraeg yn cael ei gweld ar ffurf ysgrifenedig gan lawer mwy o bobol nag yr oedd 10 mlynedd yn ôl. Diolch i'r we, mae yna blatfform i bobol ysgrifennu yn y Gymraeg heb orfod poeni'n ormodol a ydy'r gramadeg yn gywir. Gall y genhedlaeth hŷn gwyno a chwyno, ond fyddan nhw ddim yn gallu dylanwadu ar beth sy'n digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg ar y we."



**DJ Dyl Mei**

**Beirniadu safon iaith yn gwneud niwed**

Mae David Crystal yn rhybuddio na ddylai'r to hŷn weld bai ar fratiaith y to iau os yw'r iaith yn mynd i oroesi.

"Fe gaiff rhywun ifanc sy'n defnyddio math arall o Gymraeg ei feirniadu.  Chewch chi mo hynny yn Saesneg, achos nad yw hi'n iaith fregus, ac mae hi'n gallu ymdopi â'r fath amrywiaeth. Os ydyn ni'n rhoi gormod o bwyslais ar gywirdeb, mae pobol ifanc yn troi eu trwynau.

"Dyma genhedlaeth *Facebook*. Mae dyfodol y Gymraeg yn nwylo'r bobol yma; nhw yw rhieni'r genhedlaeth nesaf o blant. Fe allai'r holl bethau y mae'r Gymraeg wedi'u hennill ers hanner canrif, gyda ffigurau'r Cyfrifiad yn codi a chodi, gael eu colli mewn un genhedlaeth, os yw'r bobol ifanc yn troi eu trwynau ar yr iaith. Cofiwch: Rhaid i iaith newid er mwyn iddi oroesi."

**Y we yn hwb i'r Gymraeg**

Yn ôl yr Athro David Crystal fe allai'r Gymraeg ffynnu wrth i bobl wneud defnydd eang o'r we.

"I rywun dros ryw oed arbennig, llyfrau sy'n ganolog, a'r rhyngrwyd sydd ar y cyrion. I unrhyw un o dan 20 oed, y sgrin sy'n bwysig a llyfrau ar y tu allan. Mae'n fyd cwbl wahanol. Mae pethau fel *Twitter*, *Facebook* a'r holl ddatblygiadau technolegol yn rhan annatod o'u bywyd. Mae hi'n bwysig iawn bod nifer y gwefannau sgwrsio Cymraeg yn cynyddu, bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio fwyfwy ar wefannau cymdeithasol a bod yna Gymraeg ar *Twitter*. Mae hyn wrth gwrs yn digwydd; mae yna lawer o Gymraeg ar y rhyngrwyd nawr."

Trwy fanteisio ar y we, fe allai'r Gymraeg fynd o nerth i nerth.

**DARN DARLLEN 5**

## HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru **diogelach**

### Seiber Fwlio

**Beth yw seiber fwlio?**

Seiber fwlio (y cyfeirir ato hefyd fel 'bwlio ar-lein') yw pan fydd unigolyn neu grŵp o bobl yn defnyddio'r rhyngrwyd, e-bost, gemau ar-lein neu unrhyw fath arall o dechnoleg ddigidol er mwyn bygwth, bychanu neu achosi gofid i rywun arall. Mae 21% o blant rhwng 8 ac 11 oed wedi cael eu targedu'n fwriadol, drwy'r defnydd o ffôn symudol neu'r rhyngrwyd ac mae hyn wedi digwydd i 28% o blant rhwng 11 ac 16 oed.

**Negeseuon cyflym ac ystafelloedd sgwrsio**

Weithiau, bydd rhai pobl yn cael negeseuon cas, sarhaus neu fygythiol pan fyddant yn defnyddio negeseuon cyflym neu ystafelloedd sgwrsio. Mae anfon y mathau hyn o negeseuon gan ddefnyddio cyfrif rhywun arall heb eu caniatâd hefyd yn fath o fwlio.

**Camddefnyddio gwybodaeth bersonol**

Weithiau, bydd pobl sy'n bwlio yn gosod lluniau neu wybodaeth bersonol am rywun arall heb eu caniatâd, er enghraifft blog ffug dan enw rhywun arall.

**Pam mae seiber fwlio yn wahanol i fwlio wyneb yn wyneb?**

- Gall ddigwydd ar unrhyw amser o'r dydd neu'r nos.
- Gall ddigwydd i blentyn pan fydd ar ei ben ei hun.
- Gellir dosbarthu negeseuon a delweddau seiber fwlio yn gyflym i gynulleidfa eang.
- Mae'n anodd iawn dileu negeseuon testun neu luniau amhriodol.

**Mae plant sy'n cael eu seiber fwlio yn fwy tebygol o:**

- Gael eu bwlio wyneb yn wyneb hefyd
- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau
- Bod yn amharod i fynd i'r ysgol
- Cael graddau gwael
- Bod ag ychydig iawn o hyder
- Dioddef problemau iechyd

***(Mae'r darn darllen hwn yn parhau ar dudalen 8.)***

**Bloc ar y bwli**

**Cyngor defnyddiol i rieni / gofalwyr i stopio seiber fwlio**

- Cynigiwch gysur a chefnogaeth. Anaml iawn y bydd bwlio yn rhywbeth sydd yn digwydd ar-lein yn unig. Yn aml iawn bydd yn cael ei wneud gan rywun y mae'r plentyn yn ei adnabod.
- Dywedwch wrth y plentyn am gadw'r dystiolaeth, boed hynny'n neges destun neu'n e-bost. Dywedwch wrtho am beidio ag ymateb ac i beidio â dileu'r sylwadau.
- Gofynnwch i'r plentyn a ydyw'n adnabod y bwli neu'n gwybod o le mae'r negeseuon yn dod. Yn aml iawn rhywun yn yr ysgol sy'n gyfrifol am y bwlio felly gellir delio â'r broblem yn gyflym ac yn effeithiol. Dylai fod gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer delio â seiber fwlio.
- Dylech annog y plentyn i roi bloc neu ddileu'r cysylltiad â'r unigolyn fel na all gysylltu eto.
- Mae nifer o wefannau sy'n rhoi cyngor ar ddelio â seiber fwlio.
- Am fwy o wybodaeth ynglŷn â seiber fwlio ewch ar y gwefannau hyn:

  Thinkuknow - www.thinkuknow.co.uk

  ChildLine - www.childline.org.uk

www.heddlu-gogledd-cymru.police.uk